# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ26932 a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 25 Gorffennaf 2003

**At Janice Gregory:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, bu ichi sôn am ddarpariaeth band eang yng Nghymoedd de Cymru. Darperais ffigurau i ddangos canran y cyfnewidfeydd sydd ar waith yn ardaloedd llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr, Tor-faen, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ond, o ran y ffigurau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Thor-faen, rhoddais ymrwymiad y byddwn yn gofyn i'm swyddogion egluro pa gyfnewidfeydd penodol o fewn yr ardaloedd hyn sydd ar waith ac yn ysgrifennu atoch i roi darlun manylach i chi.

O ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rhoddwyd cyfnewidfeydd a alluogir drwy ASDL ar waith yn Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, Mynyddcynffig a Phorthcawl. Mae'r cyfnewidfeydd ym Maesteg a Phen-coed yn awr wedi cyrraedd eu lefel sbardun ac mae'n bryd eu diweddaru. O fewn y sir, dim ond cyfnewidfeydd Pontycymer a Chwm Ogwr sy'n weddill lle na osodwyd lefel sbardun neu nid yw'r lefel yn agos at gael ei gyrraedd.

O'r pedair cyfnewidfa yn Nhor-faen, rhoddwyd rhai Cwmbran a Phont-y-pŵl ar waith eisoes. Ni osodwyd lefel sbardun ar gyfer cyfnewidfa Blaenafon ac nid yw'r galw yng nghyfnewidfa Talywain wedi cyrraedd y lefel briodol i gyrraedd y sbardun.

Mae'r uchod yn cynrychioli'r sefyllfa fel ag yr oedd yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Gorffennaf 2003. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y sefyllfa yn ansefydlog ac yn newid yn gyflym iawn gyda mwy o gyfnewidfeydd yn cael gosod lefel sbardun ac yn cyrraedd eu lefelau sbardun yn rheolaidd.

O ran beth y mae hyn yn ei olygu o ran y ddarpariaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Thor-faen, yn ddibynnol ar brofi'r llinell, bydd gwasanaeth band eang ADSL ar gael fel arfer i safleoedd sydd â chebl tanddaearol cyfunol a phellter llinell ffôn o hyd at oddeutu 5.5. km oddi wrth unrhyw un o'r cyfnewidfeydd sydd ar waith a restrir uchod.

Hyderaf fod y wybodaeth hon yn rhoi eglurhad pellach ar argaeledd cyfredol ADSL yn ardaloedd awdurdod lleol Tor-faen a Phen-y-bont ar Ogwr.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ26381 ac OAQ26941, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 31 Gorffennaf 2003

**At Ann Jones:**

Yn sgîl cwestiynau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf, ac yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog yng Nghyfarfod Llawn 15 Gorffennaf, codwyd materion gennych ynglŷn â'r ymwneud rhwng y gwasanaethau tân a phobl ifanc, drwy gynlluniau megis y cynlluniau i ddiffoddwyr tân ifanc, y cynnig gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i ddod â Chyngor Ymgynghorol Canolog y Brigadau Tân i ben, a'ch awydd chi i sicrhau nad yw Cymru yn mynd ar ei hôl hi o'i chymharu â gweddill y DU yn sgîl datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân i Gymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi arweiniad clir o ran datblygu polisïau diogelwch tân cymunedol i Gymru, ers iddi sefydlu'r gweithgor diogelwch tân cymunedol yn 2001. Erbyn hyn mae'r gweithgor wedi cynhyrchu dau adroddiad: 'Wired for Safety', sy'n edrych ar danau yn y cartref, ac 'Up in Flames', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror ac a oedd yn edrych ar

gynnau tanau yn fwriadol. Mae’r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion er mwyn lleihau nifer y tanau sy’n cael eu cynnau’n fwriadol yng Nghymru ac, yn benodol, yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu cynigion ar gyfer strategaeth gynhwysfawr i Gymru ar gynnau tanau’n fwriadol. Er mwyn rhoi argymhellion ‘Up in Flames’ ar waith, yr ydym wedi cynyddu ein cyllideb diogelwch tân cymunedol i £4 miliwn ar gyfer 2003-04.

Mae’r adroddiad yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan fudiadau ieuenctid i’w chwarae a’r angen i ennyn perthynas â phobl ifanc er mwyn gwireddu’r amcan o leihau nifer yr achosion o gynnau tanau’n fwriadol yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn cynnwys yr argymhelliad bod cynlluniau o dan arweiniad pobl ifanc yn gallu dylanwadu’n sylweddol ar lefelau cynnau tanau’n fwriadol ac y dylid, felly, ystyried ffyrdd i’w hehangu ac i feithrin mwy o ymwneud rhwng cynlluniau o dan arweiniad y gwasanaeth tân (megis y cynllun i ddiffoddwyr tân ifanc) a’r partneriaethau lleol ar gyfer pobl ifanc, a sefydlwyd o dan ein hagenda ‘Ymestyn Hawliau’.

Mae’r adroddiad yn ystyried y ffaith bod tân yn hudo plant, a’u bod weithiau yn arbrofi gyda chynnau tanau fel rhan o’u chwarae, a daw i’r casgliad mai plant rhwng pump a 12 oed sy’n bennaf cyfrifol am danau bwriadol ar dir glas neu danau sbwriel, sy’n rhan sylweddol o faich gwaith y brigadau tân. Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith a wneir eisoes, wrth i frigadau tân Cymru gynnig rhaglenni addysgol tymor byr i deuluoedd sy’n ceisio ymdrin ag ymddygiad plant ifanc rhwng pedair a 12 oed sy’n cynnau tanau, pan wneir cais am hynny. Mae’r rhaglen hon wedi arwain at ganlyniadau da, gyda chyfraddau llwyddo o oddeutu 85 y cant wedi eu cofnodi o blith y 200 o achosion yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu cyfeirio bob blwyddyn. Ar gyfer y troseddwyr gwaethaf, mae yna hefyd ganolfannau arbenigol sy’n darparu triniaethau preswyl ac a ariennir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Dywed yr adroddiad hefyd fod tystiolaeth anecdotaidd dda fod cynnau tanau yn rhan o brif weithgaredd troseddol pobl ifanc yn y gyfundrefn cyfiawnder ieuenctid. Mae swyddogion tân yng Nghymru wedi datblygu sawl cynllun i weithio gyda throseddwyr ifanc i fynd i’r afael â’r duedd o gynnau tanau ac, mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu anfon swyddog tân ar secondiad i’r timau troseddau ieuenctid. Mae’r cynlluniau yn cynnwys elfen addysgol, sy’n hysbysu’r bobl ifanc am ganlyniadau nad ydynt wedi’u rhagweld wrth gynnau tanau. Maent yn dangos mor gyflym y gall tân ddatblygu, sut y mae tanau bwriadol yn effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol, ac mor ddifrifol y gall anafiadau a achosir gan dân fod. Law yn llaw â’r addysg hon ceir gweithgareddau tîm a magu hyder, sgiliau cymorth cyntaf, hyfforddiant a dangosir sut mae defnyddio offer diffodd tân. Cânt hefyd brofi’r amodau pan fo tân go iawn yn llosgi mewn cyd-destun hyfforddi saff. Mae’n ymddangos bod delwedd gyhoeddus gadarnhaol a hygrededd pen stryd diffoddwyr tân yn gwneud y math hwn o ymyrraeth yn dderbyniol i droseddwyr sydd fel arall yn sinigaidd iawn.

Mae cynlluniau hyfforddi’r ifanc, megis y cynllun i ddiffoddwyr tân ifanc, wedi dod yn hynod boblogaidd ac yn rhan annatod o strategaethau diogelwch tân cymunedol llawer o frigadau tân. Gwneir y gwaith hwn fel rhan o Gymdeithas y Gwasanaethau Tân ar gyfer Hyfforddi’r Ifanc. Nod y gymdeithas yw cyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc drwy eu hannog i fabwysiadu diwylliant cadarnhaol y gwasanaeth tân. Mae wedi ymrwymo i helpu gyda’r gwaith o gyflwyno rhaglenni datblygu saff ac effeithiol a fydd yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu fel unigolion, gan chwarae rhan bositif ac effeithiol yn eu cymunedau, gweithio gyda phobl i ddod yn aelodau tîm effeithiol, a chyflawni tasgau ac amcanion penodol. Yng Nghymru, cafodd saith cynllun i ddiffoddwyr tân ifanc eu sefydlu ac mae’r cynlluniau’n cael cefnogaeth eang yn y gwasanaeth tân, gyda nifer o ddiffoddwyr tân yn rhoi yn hael o’u hamser eu hunain i helpu i drefnu cynlluniau lleol. Yng Nghymru, caiff y cynlluniau i ddiffoddwyr tân ifanc eu cynnal ar y cyd â chynlluniau ieuenctid awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae llawer o’r diffoddwyr tân ifanc yn cael eu dethol gan brifathrawon ar ôl iddynt weld arwyddion cynnar fod eu gwaith yn dechrau dirywio neu arwyddion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae’r

cynllun yn caniatáu i bobl ifanc yn yr amgylchiadau hyn adennill eu hunanhyder ac ailintegreiddio yng nghwricwlwm yr ysgol.

Mae hwn yn waith pwysig, ac yn waith y bydd angen ei ehangu os yw ein gweledigaeth o strategaeth i Gymru gyfan ar gynnau tanau'n fwriadol i gael ei gwireddu. I'r perwyl hwn, mae 'Up in Flames' hefyd yn gosod targedau tymor byr a thymor canolig i geisio cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud â rhaglenni'r gwasanaeth tân a chyrff eraill ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phobl ifanc wedi'u dadrithio mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth tân a chyrff eraill sy'n weithgar yn y maes i ystyried y ffordd orau o ddatblygu argymhellion 'Up in Flames'. Bydd rôl ganolog yn y gwaith hwn i Atal Tân Cymru, sef cynllun ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a gwasanaethau tân Cymru, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2003. Cylch gwaith cyffredinol Atal Tân Cymru yw gwella ansawdd bywyd yng Nghymru drwy ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau ataliadwy a achosir gan danau. Bydd yn gwneud hyn drwy dri maes penodol o weithgarwch, sef ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd, ymchwil i ddeall achosion marwolaethau ac anafiadau a achosir gan danau yn well, a thrwy roi grantiau i gefnogi cynlluniau lleol ar ddiogelwch tân.

Cafodd y gweithgor diogelwch tân cymunedol ei ailgynnull ar 4 Gorffennaf gan swyddogion er mwyn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen i ddatblygu strategaeth i Gymru gyfan ar gynnau tanau'n fwriadol, fel yr argymhellwyd yn 'Up in Flames', sef adroddiad y grŵp ar gynnau tanau'n fwriadol. Fodd bynnag, bydd angen i'r grŵp wneud gwaith pellach cyn y bydd gennym bolisïau sydd wedi eu datblygu'n llwyr yn y maes hwn. Er enghraifft, er mwyn ehangu'r cynlluniau ar gyfer pobl ifanc yn sylweddol, fel yr argymhellwyd yn 'Up in Flames', byddai'n afresymol disgwyl i swyddogion tân ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn drwy ddibynnu ar ddim ond eu hewyllys da.

A throi at eich sylwadau ynglŷn â dirwyn Cyngor Ymgynghorol Canolog y Brigadau Tân i ben, cafodd y cyngor ei sefydlu o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i fod yn fforwm i randdeiliaid y gwasanaeth tân lle gallent ddod i gytundeb ynglŷn â materion polisi o bwys. Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog o'r farn fod y corff wedi mynd yn fwy a mwy biwrocrataidd dros y blynyddoedd, ac y dylid ei ddisodli gyda gofyniad i ymgynghori fesul pwnc, gan sefydlu grwpiau bach, anffurfiol, ar lefel uchel ac o safon dda, o bobl sydd â phrofiad perthnasol i roi cyngor ynghylch materion yn y dyfodol. Mater i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yw ystyried dyfodol y cyngor ymgynghorol. O'n rhan ni, yr ydym yn dal i ystyried, drwy ymgynghori â phartneriaid, y broses o ddatganoli a ffurf y gwasanaeth tân datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, yr wyf wedi datgan yn gyson mai diogelwch fydd ein blaenoriaeth bennaf ac, wrth lywio'r broses ddatganoli, bydd hynny yn hawlio ein sylw uwchlaw popeth arall. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 24 Medi. Y datganiad fydd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Papur Gwyn. Byddai'n amhriodol imi fynd i fanylu cyn gwneud y datganiad hwnnw.

**Gwybodaeth ychwanegol i'r datganiad ar gyfrifon dysgu unigol a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 6 Awst 2003**

**At Brian Gibbons:**

Yn sgîl fy natganiad ar 15 Gorffennaf yn cyhoeddi bod rhaglen cyfrifon dysgu unigol Cymru ar gael i unigolion, gofynasoch imi egluro'r hyn a olygwyd wrth 'oedolyn' yn rhaglen CDU Cymru. Gofynasoch a allai person hŷn nad oedd yn derbyn y budd-daliadau cymhwysol y

mae eu hangen i dderbyn nawdd gan CDU Cymru ddal i wneud cais? Cytunais i'ch ateb yn ysgrifenedig ar y deupeth hyn.

Hoffwn egluro, o dybio bod unigolyn yn diwallu'r meini prawf cymhwyster cychwynnol yn yr ystyr bod ei gyrhaeddiad, neu ei chyrhaeddiad, addysgol uchaf blaenorol ar neu o dan lefel 2 y fframwaith cymwysterau cenedlaethol, yna mae CDU Cymru yn agored i unigolion 18 oed a hŷn—nid oes gan CDU Cymru derfyn oedran uchaf.

O ran eich cwestiwn ar gymorth i bobl hŷn, gallaf gadarnhau ni waeth am statws ariannol neu gyflogaeth unigolyn, dim ond bod eu cyrhaeddiad addysgol uchaf blaenorol ar neu o dan lefel 2 yr NQF, maent yn gymwys i geisio am nawdd gwerth 50 y cant o gost y cwrs hyd at fwyafswm o £100 oddi wrth CDU Cymru. I fod yn gymwys am nawdd gwerth 100 y cant o hyd at £200, neu nawdd gwerth 80 y cant o hyd at £160, rhaid bod unigolyn yn derbyn naill ai cymhorthdal incwm neu lwfans ceisiwr swydd a seilir ar incwm ar gyfer nawdd gwerth 100 y cant, neu gymhorthdal y dreth gyngor, cymhorthdal tai neu gredyd treth gwaith ar gyfer nawdd gwerth 80 y cant. Ni ellir ystyried cymhorthdal neu sefyllfa bersonol arall wrth asesu nawdd gwerth 100 y cant neu 80 y cant.

O ran eich sylw ynghylch pobl hŷn sy'n derbyn 'gwarant isafswm incwm' a'ch cwestiwn a ydynt yn gymwys ar gyfer y raddfa uwch o nawdd, hoffwn eich sicrhau y cynhwysir y cymhorthdal yn y meini prawf ar gymorthdaliadau cymwys am nawdd 100 y cant ar gyfer CDU Cymru oherwydd fe'i telir fel cymhorthdal incwm. O Hydref 2003, disodlir y gwarant isafswm incwm gan 'gredyd pensiwn', ac mae fy swyddogion mewn cysylltiad â Chanolfan Byd Gwaith i ganfod a delir y cymhorthdal hwn fel cymhorthdal incwm i'r sawl sydd dros 60 oed.

Rhoddaf sicrwydd i chi y byddwn yn monitro niferoedd fel rhan o'r gwerthuso parhaus, ac yn ystyried a oes rhaid ehangu'r meini prawf cymhwyster o ganlyniad i gasgliadau'r gwerthusiad.

**At Mark Isherwood:**

Yn sgîl fy natganiad ar 15 Gorffennaf yn cyhoeddi bod rhaglen cyfrifon dysgu unigol Cymru ar gael i unigolion, gofynasoch a oedd CDU Cymru wedi gweithredu map risgiau cadarn ac a roddwyd camau rheoli safon cyfan ar waith. Cytunais i'ch ateb yn ysgrifenedig ar y deupeth hyn.

Drwy gydol datblygu polisi CDU Cymru, bu asesu risg yn ganolog. Cafodd cofrestr risg gynhwysfawr a lòg materion eu sefydlu o'r dechrau, a'u monitro a'u diweddaru ym mhob cyfarfod o'r grŵp llywio polisi—bydd hyn yn parhau hyd y gellir rhagweld.

Sylfaen y darparwyr yw allwedd llwyddiant CDU Cymru. Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi datblygu sylfaen ddarpariaeth o 115 darparwr sydd wedi mynd drwy broses ddethol gynhwysfawr. Mae'r cyngor wedi ystyried meysydd megis dichonoldeb ariannol, record mewn dysgu, iechyd a diogelwch, a safon y dysgu, ac mae wedi ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar bob agwedd o broses y darparwr dysgu o ran gwneud cais, cofrestru a gweithredu. I leihau'r risg o gamddefnydd gan y darparwr addysg ymhellach, penodwyd rheolwr darparwr dysgu a fydd yn gyfrifol am fonitro gweithgarwch.

Mae'r system TG a ddyluniwyd yn unswydd i CDU Cymru yn defnyddio'r system ddiogelwch a ffefrir gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau ariannol mawr ac fe'i profwyd yn drylwyr gan ymgynghorydd TG annibynnol. Fe'i cafodd yn gadarn ac yn ddiogel.

Mae swyddogion wedi ystyried honiad y cyngor cenedlaethol ei fod yn barod i lansio CDU Cymru ac maent wedi edrych yn fanwl ar y gweithdrefnau y mae'r cyngor wedi'u rhoi ar waith i reoli'r cynllun. Wedi ymgynghori ag ef ac, ar ran y prif swyddog cyllid, cadarnhaodd swyddog cydymffurfio'r Cynulliad ei fod yn fodlon bod y cyngor wedi canfod a gweithredu'r camau angenrheidiol i asesu'n gywir a dileu neu ostwng risg yn y rhaglen olynol.

I droi at eich cwestiwn ar fesurau rheoli safon, gallaf gadarnhau bod y mwyafrif o'r dysgu a gynigir drwy CDU Cymru wedi'i achredu gan gorff dyfarnu allanol ac felly cynigia rywfaint o sicrwydd o ran safon. Bu'n rhaid i'r cyrsiau hynny nas achredwyd roi manylion am y modd y'u cyflawnir, eu horiau dysgu a'u canlyniadau disgwyliedig, er enghraifft, ac fe'u hystyriwyd yn fanwl gan dîm fframwaith credyd Cymru y cyngor cyn cael eu derbyn i ddenu cefnogaeth CDU Cymru.

Caiff y modd y darperir rhaglen CDU Cymru ei fonitro gan adran nawdd berthnasol y Cynulliad. Mae'r gwerthuso sydd ar waith yn hollbwysig wrth bennu safon y rhaglen a'r dysgu a ddarperir. Bydd yn rhoi canllawiau ar ddatblygu parhaus y rhaglen ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i sicrhau y gall CDU Cymru chwalu'r rhwystrau hynny i ddysgu a wynebir gan ein grŵp targed o gleientiaid.

**At Helen Mary Jones:**

Yn sgîl fy natganiad ar 15 Gorffennaf yn cyhoeddi bod rhaglen newydd CDU Cymru ar gael i unigolion, gofynasoch pwy a fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r 'prawf o allu i dalu' yn y rhaglen, a chytunais i'ch ateb yn ysgrifenedig.

Gan fod tair lefel o gymorth ar gael drwy CDU Cymru, bydd prawf o allu i dalu i ganfod pa faint y mae unigolyn yn gymwys i geisio amdano. Nid yw hyn mor feichus ag y gall ymddangos. Er mwyn dderbyn y cymorth llawn o 100 y cant oddi wrth CDU Cymru, rhaid i unigolion fod yn derbyn cymorth incwm neu lwfans ceisiwr gwaith a seilir ar incwm a rhaid iddynt gyflwyno copi o'u dyfarniad diweddaraf fel prawf. Ni ddisgwylir iddynt ddatgelu eu sefyllfa ariannol yn llawn, gan y byddant eisoes wedi mynd drwy'r broses hon gyda Byd Canolfan Gwaith wrth gyfrifo eu hawl i fudd-daliadau. Yn yr un modd, os yw unigolyn yn derbyn budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor, mae'n ofynnol darparu copi o brawf dyfarniad yr unigolyn gan yr awdurdod lleol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid y Wlad, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran awdurdodau lleol Cymru, yn llwyr gymeradwyo'r agwedd hon.

Cynlluniwyd y system hon o brofi'r gallu i dalu o fewn CDU Cymru i wneud y broses ymgeisio mor rhwydd â phosibl er mwyn lleihau unrhyw rwystrau 'biwrocrataidd' rhagdybiedig a all fod gan ddarpar ymgeiswyr.

Gan mai learndirect yw ffynhonnell ffurflenni cais CDU Cymru, gallwn ymwneud â rhwydwaith Canllawiau i Oedolion Gyrfa Cymru yn y rhaglen. Gall ei gynghorwyr hyfforddedig gynorthwyo darpar ymgeiswyr i gwblhau eu ffurflenni cais yn ogystal â chynnig cyngor ac arweiniad ynglŷn â'r dysgu mwyaf addas. Bu Cyngres yr Undebau Llafur hefyd yn ymwneud â datblygu CDU Cymru ac mae'i chynrychiolwyr addysg mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig help i'w haelodau i gwblhau y ffurflen gais.

Yr oeddwn yn awyddus i sicrhau y cynigir y cymorth y mae ein grŵp targed o gleientiaid ei angen drwy CDU Cymru a chredaf y bydd y system ymgeisio rwydd a'r prawf o allu i dalu sydd gennym ar waith yn annog y sawl sydd anoddaf eu denu yn draddodiadol.